www.xtrapapers.com

OCR
Oxford Cambridge and RSA

# I'w agor ar ôl ei dderbyn

## LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT MEWN TGCh

**R001/02** Deall Systemau Cyfrifiadurol

**ASTUDIAETH ACHOS WEDI'I RHYDDHAU YMLAEN LLAW**

**MEHEFIN 2016**

*6412337746*

### CYFARWYDDIADAU I ATHRAWON

- Gellir rhoi'r deunydd hwn sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw i ymgeiswyr ar unrhyw adeg ar ôl i'r Ganolfan ei dderbyn.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

- **Rhaid** i chi ymgyfarwyddo â'r deunydd sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw cyn sefyll yr arholiad.
- **Ni** chewch fynd â nodiadau i'r arholiad.
- **Bydd copi glân o'r deunydd hwn sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw yn cael ei roi i chi gyda'r papur cwestiynau.**
- **Ni** chewch fynd â'r copi hwn o'r deunydd sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw i'r arholiad.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **4** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

© OCR 2016 [K/503/6025]
DC (LK) 130273
Mae OCR yn Elusen eithriedig

www.xtrapapers.com



**Gwybodaeth i Ddysgwyr**

Mae campfeydd yn cynnig cyfle i bobl wneud ymarfer corff mewn nifer o ffyrdd. Yn ogystal â defnyddio pwysau a pheiriannau ymarfer corff, mae campfeydd yn cynnig amrywiaeth o ddosbarthiadau hefyd, a phob un yn cael ei arwain gan hyfforddwr. Fel arfer, rhaid i bobl sydd eisiau mynd i ddosbarth gofrestru i ddangos eu diddordeb (Senario 1).

Mae hyfforddwyr campfa fel arfer yn hunangyflogedig, ac efallai byddan nhw'n arwain a threfnu dosbarthiadau mewn llawer o wahanol gampfeydd. Yn ogystal â gweithio gyda grwpiau mawr, mae hyfforddwyr yn gweithio fel Hyfforddwyr Personol un-i-un hefyd (Senario 2).

**Senario 1**

Mae Fun Gym wedi'i leoli mewn warws wedi ei drawsnewid yn Llundain. Mae gan y gampfa ddwy ystafell bwysau, un stiwdio ar gyfer aerobeg a dosbarthiadau eraill, ac ystafell â 30 o feiciau sefydlog sy'n cael eu defnyddio ar gyfer dosbarthiadau beicio grŵp. Mae'r stiwdio a'r ystafell â'r beiciau sefydlog yn cynnwys un cyfrifiadur a system seinydd.

Mae gan y gampfa wefan, a dyma'r brif ffurf hysbysebu. Mae Bridget, perchennog y gampfa, yn defnyddio meddalwedd gwe-awduro (*web-authoring software*) ar gyfrifiadur yn ei swyddfa i gynnal y wefan. Mae gan y wefan adran 'newyddion', sy'n cynnwys ffotograffau ac erthyglau am hyfforddwyr, aelodau a digwyddiadau arbennig. Mae Bridget yn tynnu'r rhan fwyaf o'r ffotograffau ar gyfer yr adran hon ei hun, ac mae'n eu hoptimeiddio nhw fel eu bod yn addas i'w defnyddio. Mae'r wefan yn cynnwys adran 'aelodau yn unig'. Mae hon yn ardal gyfyngedig (*restricted*) sy'n gallu cael ei defnyddio gan aelodau i fwcio eu dosbarthiadau.

Mae'r gampfa yn cynnal dosbarthiadau trwy gydol yr wythnos, wedi eu staffio gan hyfforddwyr. Mae pob un o'r hyfforddwyr yn y gampfa yn hunangyflogedig ac yn cael ffi wedi'i thalu iddyn nhw am bob sesiwn y maen nhw'n ei harwain. Ar ddiwedd pob mis, mae Bridget yn anfon neges e-bost at bob hyfforddwr gyda ffeil atodedig wedi'i hamgryptio. Mae'r ffeil yn cynnwys manylion eu henillion am y mis a'r dyddiad bydd yr arian yn cael ei drosglwyddo i'w cyfrif banc.

**Senario 2**

Mae Tom yn hyfforddwr campfa sy'n arwain a threfnu pedwar dosbarth beicio grŵp bob wythnos yn Fun Gym. Mae e'n gweithio mewn campfeydd eraill hefyd ac yn cymryd rhan mewn cystadlaethau beicio. Weithiau, mae'n rhaid iddo deithio i'r cystadlaethau hyn, ac felly nid yw ar gael i weithio ar y diwrnodau hynny pan fydd e'n cystadlu.

Mae gan Tom saith cleient preifat a, bob mis, mae'n anfon manylion trwy'r e-bost atynt am ddigwyddiadau a chystadlaethau yn y dyfodol agos.

Mae Tom yn cynllunio ei ddosbarthiadau ar gyfer yr wythnos i gynnwys sbrintiau cyflym, dringo bryniau a sesiynau arafu (*cool-down*). Mae e'n dewis cerddoriaeth addas oddi ar ei gyfrifiadur gartref i'w defnyddio yn ei ddosbarthiadau. Mae Tom yn trosglwyddo'r gerddoriaeth i gyfrwng storio, ac wedyn yn mynd â'r gerddoriaeth gydag ef i bob campfa.

Mae Tom eisiau denu mwy o aelodau i'w ddosbarthiadau, ac felly mae wedi penderfynu creu posteri yn hysbysebu sesiynau'r wythnos nesaf. Bydd y posteri hyn yn cyfuno graffigwaith a thestun.

Hoffai Tom weithio mewn ysgolion cynradd, ac felly mae wedi bod yn datblygu cwrs ar gyfer plant ifancach. Mae wedi bod yn ymchwilio i ddefnyddio gemau fideo sy'n efelychu chwaraeon ac ymarfer corff. Mae ganddo ddiddordeb arbennig yn y gemau fideo hynny sy'n defnyddio dyfeisiau mewnbynnu arbenigol i gynnwys y chwaraewr yn uniongyrchol mewn ymarfer corff.

Mae Tom wedi dioddef bwlio seiber yn ddiweddar, ac mae wedi bod yn ymchwilio i ddulliau y gallai eu defnyddio i leihau'r tebygolrwydd y bydd y bwlio hwn yn parhau.

© OCR 2016 

www.xtrapapers.com



**Paratoi**

I baratoi ar gyfer yr arholiad, dylech chi ymchwilio i'r defnydd o TGCh mewn campfa.

Dylai hyn gynnwys:

- caledwedd a meddalwedd mae eu hangen i gefnogi swyddogaeth fusnes y sefydliad;
- defnyddio ardaloedd cyfyngedig ar wefannau sy'n cynnig gwasanaethau arbennig i aelodau, fel y gallu i fwcio dosbarthiadau, ac unrhyw gyfyngiadau a allai gael eu gosod ar ddefnyddio ardaloedd o'r fath;
- y cynnwys sy'n cael ei roi mewn posteri fyddai'n cael eu harddangos mewn campfa, a dulliau sy'n gallu cael eu defnyddio i greu'r posteri hyn;
- materion cyfreithiol.

Dylech chi hefyd ymchwilio i'r canlynol:

- sut a pham gallai ffeiliau gael eu hamgryptio;
- gwahanol ddulliau o optimeiddio ffeiliau delweddau ar gyfer eu harddangos ar wefannau, a manteision ac anfanteision y rhain, yn ogystal â'r ffactorau sy'n effeithio ar ba rai allai gael eu defnyddio;
- dulliau sy'n caniatáu defnyddio meddalwedd i wneud gwaith cyfrifo;
- defnyddio cyfryngau storio i drosglwyddo ffeiliau rhwng lleoliadau, a dulliau eraill sy'n golygu bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad at ffeiliau o bell;
- defnyddio'r e-bost yn gywir ac effeithlon wrth gyfathrebu o fewn lleoliad busnes;
- defnyddio rheolyddion gemau a dyfeisiau mewnbynnu arbenigol.

www.xtrapapers.com



Oxford Cambridge and RSA

**Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae OCR wedi ymrwymo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.

© OCR 2016